# Ein Hymrwymiad i Ofalwyr

motor neurone disease association

- Darparu cymorth i'ch helpu chi i ymdopi â gofalu am rywun sydd â chlefyd niwronau motor

- Cynnig cyfleoedd i liniaru effeithiau ynysu a gwella llesiant a chydnerthedd

- Eich helpu chi i gael mynediad ar wasanaethau a chymorth sy'n cael eu darparu gan eraill

Ac i'r rheini y mae angen hynny arnyn nhw...

- Cymorth i ymdopi â phrofedigaeth a cholled

**Mae'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor yn addo hyn i chi fel rhywun sy'n gofalu am berson â'r clefyd niwronau motor.**

Byddwn yn gwneud y canlynol:

• Darparu gwybodaeth am glefyd niwronau motor a gofalu, a gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut mae cael gafael ar yr wybodaeth honno

• Casglu gwybodaeth gyfredol am gymorth a gwasanaethau lleol, a'ch grymuso chi i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnoch chi

• Cynnig mwy o gyfleoedd i gael cefnogaeth penodol i chi gan gymheiriaid, drwy ddefnyddio adnoddau digidol ac ar-lein

• Darparu cymorth ar-lein a dros y ffôn, a chadw mewn cysylltiad os hoffech chi i ni wneud hynny

• Eich helpu chi i gael amser i chi'ch hun a rhannu cyfleoedd ac adnoddau defnyddiol ar-lein er mwyn gwella eich llesiant a'ch cydnerthedd

• Eich helpu chi i gael mynediad at gymorth i ymdopi â phrofedigaeth a cholled pan mae ei angen arnoch

Sut byddwn ni'n gwneud hyn:

• Datblygu grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid ac ymchwilio i gymorth penodol ar gyfer gofalwyr sydd wedi cael profedigaeth

• Datblygu digwyddiadau ar-lein wedi'u hwyluso, ac adnoddau ar-alw fel fideos i wella llesiant

• Recriwtio mwy o wirfoddolwyr i wneud y canlynol:
o darparu cymorth un-i-un
o hwyluso cyfarfodydd cymorth ar-lein
o ymchwilio, crynhoi a rhannu gwybodaeth am wasanaethau defnyddiol

• Parhau i hyrwyddo ein grantiau i ofalwyr

• Parhau i hyrwyddo ein Fforwm ar-lein i ofalwyr ac ymchwilio i weld sut byddai modd defnyddio mwy ar y cyfryngau cymdeithasol i ddarparu cymorth

• Gweithio gyda mudiadau sy'n bartneriaid i ymchwilio i ddarparu eu gwasanaethau llesiant ar-lein